

Treigladau

Wythnos 4



Mathau o dreigladau

- ◆ Mae tri threigladd yn y Gymraeg, sef:
 - Y Treigladd Meddal
 - Y Treigladd Trwynol
 - Y Treigladd Llaes

Y cytseiniaid sy'n treiglo

- ◆ Mae'r cytseiniaid canlynol yn treiglo'n feddal : **p t c b d g ll m rh**
- ◆ Mae'r cytseiniaid canlynol yn treiglo'n drwynol : **p t c b d g**
- ◆ Mae'r cytseiniaid canlynol yn treiglo'n llaes : **p t c**

Treigladau

- ◆ Mae'n bosib canfod ffurfiau treigledig y cytseiniaid drwy roi :
 - a) **dy** o'u blaen i gael Treiglad Meddal
 - b) **fy** o'u blaen i gael Treiglad Trwynol
 - c) **ei** o'u blaen i gael Treiglad Llaes

Y Treigladd Meddal

◆ p t c b d g ll m rh

p > b

b > f

ll > l

t > d

d > dd

m > f

c > g

g > _

rh > r

Y Treigladd Meddal

◆ Mewn enwau :

- 1) Mewn enwau benywaidd unigol ar ôl y fannod – y yr `r

Cofiwch, nid oes angen treigladd gyda'r lluosog e.e. y cadeiriau, y desgiau, y trafodaethau,

Mae'r cadeiriau yn y cefn

Nid yw enwau sy'n dechrau â'r llythyren **ll** neu **rh** yn treiglo e.e. y **llong**, y **rhaff**

Y Treigladd Meddal

1) Nid yw geiriau benthyg yn treiglo e.e y gêm, y gôl, y grŵp

2) Ar ôl yr arddodiaid canlynol :

am ar at

dan dros drwy

wrth gan hyd

heb i o

e.e. Bydd nifer o faterion pwysig dan drafodaeth

Y Treigladd Meddal

3) Ar ol y rhagenwau personol :

dy

ei (gwrywaidd)

'i (gwrywaidd)

'w (gwrywaidd)

e.e Diolch am dy lythyr caredig
Aeth Mr Owen â'i **g**aïs at ei
bennaeth

Y Treigladd Meddal

- 4) Mewn enw benywaidd ar ôl **un**.
e.e. un **ferch**, un _alwad ffôn,
un _wlad,
Mae tri bachgen ac un **ferch** ar
y rhestr fer

Ond nid yw enwau benywaidd sy'n
dechrau â **ll** neu **rh** yn treiglo yn yr
achos hwn e.e. un llen, un rhan

Y Treigladd Meddal

- 5) Ar ôl y rhifolion : dau dwy
e.e dau **gy**farfod dwy **dd**esg
- 6) Ar ôl ansoddair e.e. hen **dd**ogfen,
unig **dd**ewis, ambell **b**enderfyniad,
cryn **d**rafferth, annwyl **gy**fail, prif
bwyllgor

Y Treigladd Meddal

7) Ar ôl un math o **'yn'**, sef yr **'yn traethiadol'** (nid yr **'yn'** sy'n gyfystyr ag **'in'** yn Saesneg)

e.e. Mae Mr Roberts yn **ddyn** penderfynol iawn.

Mae Miss Jones wedi cael ei phenodi yn **ddirprwy** reolwr.

Y Treigladd Meddal

- ***nid** oes angen y treigladd mewn geiriau yn dechrau â **ll** neu **rh** e.e Nid yw Mr Davies yn **rh**eolwr da. Mae Mr Wyn wedi ei ethol yn **ll**ywydd
- * **nid** oes treigladd pan fydd berfenw yn dilyn '**yn**' e.e yn **g**weithio; yn **p**enderfynu; yn **t**rafod

Y Treigladd Meddal

8) Ar ôl berf gryno bersonol (e.e. ysgrifennais, darllenodd) bydd y gwrthrych yn treiglo'n feddal.

e.e. Ysgrifennodd llythyr at gyfreithwyr y cwmni.

Darllenodd gofnodion y cyfarfod diwethaf

(Nid yw'r berfenw ei hun yn achosi treigladd: ysgrifennu llythyr ; darllen gofnodion)

Y Treigladd Meddal

9) Ar ôl cysylltair **neu**.

e.e. pentref neu **dref**

galwad ffôn neu **lythyr**

10) Mewn enw benywaidd unigol ar ôl
y rhifau sy'n disgrifio trefn: **yr ail, y**
drydedd, y bedwaredd a.y.b.

e.e. y drydedd waith, y bedwaredd
flwyddyn

Y Treigladd Meddal

11) Ar ôl y rhagenwau : pa, unrhyw, amryw, rhyw.

e.e Trafodwyd pa **g**wmni oedd i gael y gwaith....

12) Ar ôl yna ('na), yma, yno

e.e. mae yna **g**ath yn yr ardd

mae yma **dd**igon o waith i'w wneud

Y Treigladd Meddal

13) Ar ôl **sangiad** (ymadrodd sy'n torri ar rediad y frawddeg)

e.e Cefais weld, rai dyddiau wedyn, **g**ofnodion y cyfarfod.

Byddwn yn penodi, ddydd Iau nesaf, **b**ennaeth newydd Adran y Gymraeg.

Y Treigladd Meddal

14) Ar ôl : **naill ambell holl**

e.e. ar y naill law....

Mae angen edrych o'r newydd
ar ambell **benderfyniad**.

15) Ar ôl : **dyma dyna**

e.e. Dyma lythyr i chi

Dyna **benderfyniad** terfynol y
pwyllgor

Y Treigladd Meddal

16) Bydd rhai enwau'n cael eu defnyddio i wneud gwaith adferf ac yn ateb y cwestiynau **Pryd? Sut? Ble?** e.e. Clywais ganddo **fis** yn ôl Cerddai'r ddau **law** yn llaw Bydd y cyfarfod nesaf **ddydd** Llun.

Y Treigladd Meddal

17) Wrth gyfarch :

e.e **G**yfeillion, croeso i'r cyfarfod.

Blant, byddwch yn ddistaw.

Mewn ansoddeiriau

18) Ar ôl enw benywaidd unigol.

e.e. dogfen **b**wysig,
trafodaeth fywiog

Y Treigladd Meddal

***Eithriadau** : wythnos **diwethaf**
ewyllys **da**
nos **da**

*Cofiwch fod pobl yn enw benywaidd unigol
felly, y bobl **dda**, y bobl **dlawd**

* os ceir mwy nag un ansoddair ar ol enw
benywaidd unigol, rhaid treiglo'r holl
ansoddeiriau sy'n dilyn e.e *Merch **dal**,
brydferth, **ddeallus** ac annwyl oedd Sian.*

Y Treigladd Meddal

19) Ar ôl **mor, cyn** wrth gymharu
ansoddeiriau e.e mor **ddiddorol**
cyn **bwysiced**

* ond nid oes angen treiglo gair sy'n
cychwyn gyda '**ll**' a '**rh**'
e.e. mor **rhad**
cyn **lleied**

Y Treigladd Meddal

20) Ar ôl **rhy, hollol, cwbl.**

e.e. yn rhy **boeth**

yn hollol **gywir**

yn gwbl **dderbyniol**

21) Ar ôl '**yn**' traethiadol (gw.rheol 7)

e.e. Mae'r ddogfen yn **bwysig**

Mae'r argymhellion yn **gryf**

* Nid yw geiriau sy'n dechrau gyda '**ll**' a '**rh**' yn treiglo ar ôl yn: e.e. Roedd hi'n siarad yn **rhesymol**.

Y Treigladd Meddal

22) Ar ôl y cysylltair **neu**.

e.e. mawr neu **f**ach

rhad neu **d**drud

Mewn **Berfau** neu **Ferfenwau**

23) Ar ôl y rhagenw perthynol **a** (sy'n golygu "*who, whom, which, that*" yn y Saesneg) e.e. Diolch am y llythyr **a** dderbyniais gennych ddoe.

Y Treigladd Meddal

24) Mae treigladd meddal mewn enwau a berfenwau ar ôl **dy** : e.e. dy feddwl, dy deulu

ac ar ôl y rhagenwau canlynol :

ei (gwrywaidd) **'i**, **'w** (gwrywaidd)

e.e. Roedd yr arholiad yn **ei** boeni.

Mae ei dad a**'i** fam yn mynd i'r capel.

Mae'r pwyllgor yn mynd i**'w** benodi am flwyddyn.

Y Treigladd Meddal

25) Ar ôl yr **a** sydd ar ddechrau cwestiwn. e.e. **A** fuasech cystal â dychwelyd y ffurflen?

A gafwyd trafodaeth ar y mater ?

26)Ar ôl **pan** e.e.

pan **d**derbyniais y llythyr

pan **g**afwyd cyfarfod

Y Treigladd Meddal

27) Ar ôl **ni** a **na** (o flaen **b d g ll m rh** yn unig) e.e. Ni lwyddodd y pwyllgor i drafod pob mater ar yr agenda; Esboniodd Ms Ifans na _welodd y ddogfen wreiddiol.

* yn achos **p t c** treigladd llaes a geir ar ôl y ddau air yma

Y Treigladd Meddal

29) Berfenw ar ôl **neu**

e.e. mynd neu **ddod**

gwrando neu **glywed**

* nid oes treigladd i ferfau ar ôl **neu**

e.e siaradwch neu **cerddwch**

Y Treigladd Trwynol

◆ **p t c b d g**

p > mh

b > m

t > nh

d > n

c > ngh

g > ng

Y Treigladd Trwynol

- 1) Ar ôl rhagenw **fy**
e.e. fy mhenderfyniad
fy nheimplad
fy nghyfle
fy marn
fy narlun
fy ngwaith

Y Treigladd Trwynol

2) Ar ôl **'yn'** (yr arddodiad sy'n golygu **'in'** yn Saesneg)

* sylwch – mae'r **'yn'** yn newid o flaen **p c b g** yn ogystal â llythyren gyntaf y gair sy'n dilyn

e.e. yn + Caerfyrddin > **yng**
Nghaerfyrddin

* **Tasg**

Y Treigladd Trwynol

3) Yn y geiriau blynedd, blwydd, diwrnod ar ôl 'pum', 'saith', 'wyth', 'naw', 'deg', 'deuddeg', 'pymtheg', 'deunaw', 'ugain', 'can'.

e.e. pum **m**lynedd, wyth **m**lwydd oed, ugain **n**iwrnod.

Yn yr achosion hyn hefyd mae :

deg > deng (deng mlwydd oed); deuddeg > deuddeng mlwydd oed ; pymtheg > pymtheng mlwydd oed

Y Treigladd Llaes

Cofiwch mai **p t c** yn unig sy'n treiglo'n llaes :

p > ph

t > th

c > ch

Y Treigladd Llaes

1) Ar ôl y rhagenwau **ei** **`i** **`w** sy'n cyfeirio at enw benywaidd.

e.e. ei chostau ei thâl

gyda'i chynllun i'w chyflog

e.e. Cyflwynodd Ms Williams yr adroddiad i'w **ph**ennaeth.

Y Treigladd Llaes

2) Ar ôl y cysyllteiriau a ('and') na ('than').

e.e. tâl a **ch**ostau

cyfarfod a **ph**wyllgor

bws a **th**rên

Y Treigladd Llaes

3) Ar ôl yr arddodiaid: â **gyda tua**
e.e.

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â
phenderfyniad.....

Trefnwyd cyfres o sesiynau gloywi
iaith gyda **chyfle** i bawb eu mynychu

Nodwyd bod yr adeilad newydd tua
thair milltir o'r hen safle.

Y Treigladd Llaes

4) Ar ôl y negyddion **ni na**
e.e

Ni **chewch** wybod y canlyniad
Eglurodd Mr Evans na **th**alwyd iddo
am ei waith.

Y Treigladd Llaes

5) Ar ôl y rhifolion **tri chwech**
e.e. tri **chyfarfod** chwe **phwyllgor**

Mae Mr Thomas wedi cael tri chyfle i
ymateb i'r penderfyniad.

Gwybodaeth Ychwanegol

- ◆ Mae **h** o flaen llafariad:

Ar ôl y rhagenwau **ei** `i `w
(benywaidd), **ein**, **eu** + **m**

e.e. ei **henw** gyda'i **hadroddiad**

i'w **hadran** ein **hystyried**

eu **hamgylchiadau** o'm **hardal**